

BRO MORGANNWG

CYNLLUN DATBLYGU LLEOL NEWYDD 2021-2036

ADRODDIAD YR ASESIAD O'R EFFAITH AR IECHYD (AEI) CYFRANOGOL CYFLYM - CYNLLUN ADNEUO'R CYNLLUN DATBLYGU LLEOL NEWYDD

Medi 2024



PAPUR CEFNDIR - BP3A



Adroddiad yr Asesiad o'r Effaith ar Iechyd (AEI)
Cyfranogol Cyflym - Cynllun Adneuo'r Cynllun
Datblygu Lleol Newydd
Cyngor Bro Morgannwg
Medi 2025

Awduron: Cheryl Williams a Catrin Lyddon, Uned Gymorth Asesu Effaith ar Iechyd
Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru;

1. Cyflwyniad

Mae'r adroddiad yn amlinellu canfyddiadau'r gweithdy AEI Cyfranogol Cyflym a gynhaliwyd ar 10 Medi 2025. Bydd y canlyniadau'n sail i baratoi Cynllun Adneuo Cynllun Datblygu Lleol Newydd Bro Morgannwg. Cynhelir mewnwelediad a chyd-destun pellach ar gyfer y prosiect gan Gyngor Bro Morgannwg, gan gynnwys cyd-destun strategol, cynlluniau manwl, tystiolaeth a data proffil cymunedol. Cyfeirir at y rhain lle bo'n briodol.

1.1 Cynllun Datblygu Lleol Newydd

Mae deddfwriaeth a pholisi cynllunio cenedlaethol yn rhoi dyletswydd ar Awdurdodau Lleol i lunio Cynllun Datblygu Lleol (CDLI). Mae'r CDLI yn gynllun defnydd tir ar gyfer ardal ac mae'n nodi'r gofynion cynllunio, y polisiau a'r cynigion penodol ar gyfer defnyddio a datblygu tir.

Mabwysiadwyd CDLI presennol Bro Morgannwg gan y Cyngor yn 2017 ac mae'n nodi fframwaith cynllunio'r Cyngor ar gyfer datblygu a defnyddio tir yn yr awdurdod rhwng 2011 a 2026.

Ar hyn o bryd mae Cyngor Bro Morgannwg yn paratoi ei CDLI Newydd i gwmpasu cyfnod y cynllun sef 2021 – 2036. Y cam paratoi presennol yw cynhyrchu'r Cynllun Adneuo, a fydd yn destun ymgynghoriad cyhoeddus ffurfiol ar ddechrau 2026. Yn dilyn hyn, bydd y cynllun yn destun archwiliad gan arolygydd annibynnol a benodir gan Lywodraeth Cymru a disgwylir i'r Cyngor fabwysiadu'r cynllun yn derfynol ar ddiwedd 2026.

Un o gamau allweddol cynhyrchu'r CDLI Newydd yw'r Cynllun Adneuo, sy'n nodi'r polisiau manwl, y dyraniadau tir a'r cynigion datblygu ar gyfer y CDLI.

2. Tystiolaeth ac AEI y Cynllun Adneuo

Wrth baratoi CDLI mae ystod eang o dystiolaeth yn cael ei chasglu a'i hystyried gan yr awdurdod lleol, mewn cyd-destun lleol a chenedlaethol.

Mae Polisi Cynllunio Cymru yn tynnu sylw at rôl AEIau wrth gyfrannu at waith llunio cynlluniau lleol. Mae AEI yn broses sy'n cefnogi sefydliadau i asesu canlyniadau posibl eu penderfyniadau ar iechyd a lles pobl. Mae'n darparu fframwaith systematig ond hyblyg ac ymarferol y gellir ei ddefnyddio i ystyried effeithiau ehangach polisiau neu fentrau lleol a chenedlaethol a sut y gallant hwy, yn eu tro, effeithio ar iechyd pobl.

Gall AEI helpu i fewnosod mesurau i wneud y mwyaf o gyfleoedd i iechyd a lleihau unrhyw risgiau, a gall nodi unrhyw 'fylchau' y gellir eu llenwi wedyn. Gall AEI hefyd gynnig ffordd o nodi a mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd trwy nodi unrhyw grwpiau o fewn y boblogaeth leol y gall polisi neu gynllun effeithio arnynt yn arbennig.

Gan ddilyn y fethodoleg systematig a ddisgrifir yn 'Asesu'r Effaith ar Iechyd (AEI) a Chynlluniau Datblygu Lleol (CDLI): Pecyn Cymorth ar gyfer Ymarfer' (Uned Gymorth Asesu Effaith ar Iechyd Cymru (UGAEIC, 2021), penderfynwyd y byddai AEI Cyfranogol Cyflym i Randdeiliaid yn cael ei gynnal ar gyfer Cynllun Adneuo CDLI newydd Bro Morgannwg. Mae'r

AEI Cyflym yn cynnwys dull ansoddol o ystyried effeithiau ar iechyd trwy ymgysylltu â rhanddeiliaid ac mae'n ychwanegol at yr AEI sydd wedi'i gynnal fel rhan o'r Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig (ACI).

Prif ddiben unrhyw AEI yw llunio cyfres o fesurau lliniaru neu argymhellion a fydd yn helpu i lywio datblygiad pellach cynllun, polisi neu fenter i leihau risgiau a sicrhau'r canlyniadau iechyd cadarnhaol mwyaf posibl.

3. Gweithdy AEI Cyfranogol Cyflym i Randdeiliaid (Medi 2025)

3.1 Diben a phroses

Diben y gweithdy oedd:

- a) Nodi grwpiau poblogaeth penodol ym Mro Morgannwg y gall polisïau yn y Cynllun Adneuo ar gyfer y CDLL effeithio arnynt yn wahanol
- b) Ystyried y polisïau cynllunio drafft mewn perthynas ag effeithiau posibl ar iechyd, yn gadarnhaol ac yn negyddol, a allai gael effaith ar iechyd a lles pobl leol, ac yn enwedig unrhyw grwpiau agored i niwed a nodir
- c) Nodi a oes unrhyw ffyrdd posibl o leihau unrhyw effeithiau negyddol a sicrhau'r effeithiau cadarnhaol mwyaf posibl.

Roedd y gweithdy AEI yn ansoddol ei natur, a galluogodd y cyfranogwyr i rannu eu barn yn ystod y sesiwn. Casglwyd eu cyfraniadau mewn nodiadau byr. Cyn y sesiwn, rhoddwyd i'r cyfranogwyr y polisïau CDLL allweddol a fyddai'n cael eu hystyried yn ystod y gweithdy, ynghyd â rhestr wirio'n tynnu sylw at rai o'r grwpiau poblogaeth a'r penderfyniadau ehangach a gynhyrchwyd gan UGAEIC.

Anfonwyd gwahoddiadau i'r gweithdy at amrywiaeth o randdeiliaid allweddol, gan gynnwys gwahanol adrannau yn yr Awdurdod Lleol (Tai, Corfforaethol, Trafnidiaeth, Cymuned), Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru, a'r trydydd sector. Bwriad gweithdy cyfranogol i randdeiliaid yw galluogi mewnwelediadau, safbwyntiau a phrofiadau bywyd i gael eu casglu mewn perthynas ag effeithiau ac ystyried y rhain ochr yn ochr â'r dystiolaeth a gasglwyd mewn mannau eraill fel rhan o'r broses AEI.

3.2 Methodoleg y gweithdy

Cafodd y gweithdy ei drefnu a'i gynnal gan Gyngor Bro Morgannwg a'i hwyluso gan UGAEIC. Cafodd y gweithdy ei gynnal ar fore 10 Medi 2025. Ceir rhestr o'r mynychwyr yn Atodiad 1 ac mae'r agenda ar gyfer y gweithdy yn Atodiad 2.

Dechreuodd y gweithdy gyda chyflwyniadau gan Gyngor Bro Morgannwg, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro ac UGAEIC i gynnig rhywfaint o drosolwg ar gyfer y sesiwn. Rhoddwyd cyflwyniad i'r AEI i'r cyfranogwyr ac yna trosolwg o'r CDLL Newydd a'r Cynllun Adneuo. Rhoddodd trosolwg o anghenion iechyd y boblogaeth leol fewnwelediadau i'r cyfranogwyr o ran beth yw'r materion iechyd allweddol yn y gymuned, gan dynnu sylw at yr ardaloedd â'r amddifadedd mwyaf.

Yn dilyn y cyflwyniadau, cynhaliwyd trafodaethau gyda chyfranogwyr y gweithdy mewn dwy sesiwn i ystyried penderfyniadau ehangach iechyd a sut y gall y polisïau o fewn y Cynllun

Adneuo effeithio ar iechyd a lles y boblogaeth, a sut y gellid mynd i'r afael â'r effeithiau hyn neu eu lliniaru.

4 Nodi'r grwpiau poblogaeth yr effeithir arnynt yn benodol

Cynhaliwyd gweithdy AEI yn 2023 ar gyfer Strategaeth a Ffeir y CDLL, a nododd cyfranogwyr yn y gweithdy hwnnw grwpiau agored i niwed ym mhoblogaeth Bro Morgannwg a allai gael eu heffeithio fwyaf yng nghyd-destun Strategaeth a Ffeir y CDLL. Defnyddiwyd 'rhestr wirio Grwpiau Poblogaeth' UGAEIC (Atodiad 3) i gynnig arweiniad ar gyfer y drafodaeth hon. Roedd cyfranogwyr y gweithdy yn gallu cyfrannu eu gwybodaeth benodol i ddeall proffil y gymuned, gan ychwanegu at ddata poblogaeth cyhoeddus a manylion demograffig. Er i'r cyfranogwyr gydnabod y byddai'r rhan fwyaf o'r grwpiau poblogaeth ar y rhestr wirio yn rhan o gymuned Bro Morgannwg, roedd rhai grwpiau penodol y teimlwyd eu bod o bwys arbennig mewn perthynas â'r CDLL.

Ni wnaeth y cyfranogwyr yn y gweithdy Cynllun Adneuo ailadrodd yr ymarfer hwn ond nodon nhw ganfyddiadau gweithdy 2023 fel isod.

Grwpiau agored i niwed a nodwyd:

- Myfyrwyr - mae niferoedd cynyddol o fyfyrwyr yn astudio yng Nghaerdydd ond yn byw yn y Fro mewn ardaloedd fel Penarth – mae poblogaethau myfyrwyr yn lledaenu o ardaloedd myfyrwyr traddodiadol.
- Pobl hŷn - mae gan y Fro boblogaeth hŷn fawr sy'n tyfu, yn enwedig pobl 80+ oed, a fydd yn parhau i dyfu dros yr 20-30 mlynedd nesaf. (Dylid ystyried gwahanol anghenion grwpiau hŷn h.y. 65+/80+/90+ oed).
- Plant a phobl ifanc – mae angen i'r rhain fod ar wahân wrth ystyried anghenion, gan fod gan blant wahanol anghenion a ffyrdd o fyw i bobl ifanc (tua 12-18 oed).

Grwpiau sydd â risg uwch o brofi gwahaniaethu neu anfantais gymdeithasol arall:

- Sipsiwn a Theithwyr – mae gan y Fro nifer o deuluoedd sipsiwn a theithwyr sydd ag anghenion penodol.
- Pobl sydd ag anableddau, yn enwedig nifer cynyddol o bobl â chyflyrau iechyd meddwl.
- Ffoaduriaid/Ceiswyr Lloches/Mewnfudwyr.
- Pobl sydd â chaethiwed/problemau camddefnyddio alcohol neu sylweddau.

Materion daearyddol a grwpiau poblogaeth o bwys eraill:

- Cyn-filwyr - mae gan y Fro nifer uchel o gyn-filwyr, a hefyd nifer o drigolion sy'n gwasanaethu yn y Lluoedd Arfog oherwydd y ganolfan filwrol yn Sain Tathan. Gall fod ystod gymhleth o faterion iechyd ymhlith y boblogaeth hon, fel camddefnyddio sylweddau.
- Mae ardaloedd yn y Barri sy'n profi dangosyddion economaidd/iechyd gwael, anghydraddoldebau a lefelau uchel o amddifadedd.

- Gweithwyr gofal cymdeithasol – mae diffyg tai fforddiadwy yn broblem arbennig yng Ngorllewin y Fro, mae hyn yn effeithio ar y gallu i roi gofal i aelodau o'r gymuned pan na all gweithwyr fforddio byw'n lleol.
- Darpariaeth gofal cymdeithasol – argaeledd cyfyngedig yng Ngorllewin y Fro gan arwain at gostau uwch, ac mae'n anodd cael gofal gartref oherwydd y costau teithio uchel i weithwyr a'r diffyg cartrefi fforddiadwy. Mae teithio yng Ngorllewin y Fro yn anodd i weithwyr gofal gan nad yw llawer o ofalwyr yn gyrru ac mae trafnidiaeth gyhoeddus yn gyfyngedig.
- Pobl sydd ag anghenion gofal cymhleth - mae lefel uchel o gleifion sydd angen gofal cymhleth yn y Fro.
- Gall gwledigrwydd y Fro fod yn broblem o ran mynediad i dtrafnidiaeth gyhoeddus - yn enwedig i bobl hŷn a phobl ifanc sy'n cael mynediad i gyflogaeth.

5 Crynodeb o ganfyddiadau'r arfarniad

Mae'r adran hon yn rhoi crynodeb o'r penderfyniadau a'r materion allweddol a godwyd wrth i'r grŵp ystyried y polisiâu yn y Cynllun Adneuo sydd fwyaf tebygol o effeithio ar iechyd a lles. Cynigiodd y rhestr wirio ehangach o benderfyniadau iechyd fframwaith defnyddiol i ystyried effeithiau (gweler Atodiad 3). Roedd yr holl gyfranogwyr yn gallu cyfrannu, a chanolbwyntiodd eu trafodaethau ar faterion allweddol yn ymwneud â sut roedd polisiâu'r Cynllun Adneuo yn debygol o effeithio ar y penderfyniadau, a/neu'r grwpiau poblogaeth allweddol a nodwyd.

5.1 Ymddygiadau sy'n effeithio ar iechyd

Roedd trafodaeth yn ymwneud â gallu pobl ym Mro Morgannwg i fod yn gorfforol actif a manteisio ar gyfleoedd teithio llesol.

Cytunwyd bod y cynllun yn cynnwys pwyslais ar deithio llesol ac yn cynnig cyfle i ddatblygu cymdogaethau cerddadwy, gan gynyddu cerdded a gweithgarwch corfforol o fewn y sir (polisi **PGD1: Creu lleoedd wedi'u dylunio'n dda a chynhwysol ac CI1: Darpariaeth Mannau Agored**). Mae'r cynllun hefyd yn cynnwys polisi **RCS 3: Siopau Tecawê Bwyd Poeth** sy'n ymwneud â lleoliad a datblygiad Siopau Tecawê Bwyd Poeth yn yr ardal, gan greu potensial i drigolion gael mynediad i opsiynau bwyd iachach.

Sylwadau ar bolisi **PGD1: Creu Lleoedd wedi'u Dylunio'n Dda a Chynhwysol**

- Mae angen sicrhau bod mannau'n cael eu dylunio ar gyfer pob math o deithio llesol – ar gyfer cerddwyr, beicwyr, pobl sy'n defnyddio olwynion eraill fel sgwteri a threiciau.
- Mae cyfle i ddylunio ar gyfer ceir a phobl – strydoedd diogel trwy ddylunio llwybrau a mannau parcio penodol i geir.
- Mae gweithgarwch corfforol yn cael ei bwysleisio'n dda yn y polisi, yn benodol y cyfle i gerdded.
- Mae angen ystyried bod pobl yn brysur yn eu bywydau bob dydd a gall cyfleustra arwain at ddefnyddio car yn fwy i gynorthwyo gyda baich tasgau. Ni ellir dylunio mewn ffordd sy'n dileu'r defnydd o geir yn llwyr, ond mae angen ei gydbwysu â'r angen i alluogi teithio llesol i fod yn hygyrch ac yn ddewis hawdd.

Sylwadau ar bolisi **RCS3: Siopau Tecawê Bwyd Poeth**

- Mae rheoli crynodiad siopau tecawê bwyd poeth mewn rhai ardaloedd o bosibl yn rhoi cyfle i bobl ddewis opsiynau iachach os nad yw ardaloedd yn cael eu dominyddu gan siopau tecawê sy'n gweini bwyd sy'n uchel mewn braster, halen a siwgr.

Sylwadau ar **CI1: Darpariaeth Mannau Agored**

- Mae angen ystyried dylunio mannau agored ar gyfer pob grŵp oedran i allu bod yn gorfforol actif yn eu cymuned.
- Mannau chwarae – dylid ystyried y cyfle ar gyfer ardaloedd chwarae naturiol mewn mannau agored, nid ardaloedd chwarae ffurfiol yn unig.
- O ran datblygiadau tai – dylid ystyried ymatal rhag gosod arwyddion sy'n rhwystro opsiynau ar gyfer chwarae a chysylltioldeb ynddynt. Er enghraifft – peidiwch â chodi arwyddion 'dim gemau pêl'.
- Dylid ystyried rhoi pwrpas newydd i fannau agored segur fel mannau tyfu bwyd cymunedol.

5.2 Dylanwadau cymdeithasol a chymunedol ar iechyd

Canolbwyntiodd yr adran hon ar greu cymdogaethau sy'n galluogi cymunedau cydlynol â chysylltiadau da. Nod llawer o'r polisiâu o fewn y cynllun yw cynnig cyfleoedd i ddod â chymunedau at ei gilydd.

Sylwadau ar bolisi **PGD1: Creu Lleoedd wedi'u Dylunio'n Dda a Chynhwysol**

- Dylid ystyried cyfle i bobl gysylltu wrth ddylunio ar gyfer iechyd a lles, er enghraifft trwy adeiladau a mannau cymunedol, meinciau ac ardaloedd eistedd lle gall pobl ymgynnull.
- Cyfle o dan y polisi hwn i ddefnyddio dysgu o ddatblygiadau rhyngwladol i greu mwy o fannau cymunedol. Fel y trafodwyd yn ystod y gweithdy, mewn adeiladau fflatiau, gall creu mannau storio, golchi dillad a lleihau ac ailddefnyddio helpu i sicrhau ymdeimlad o gymuned o fewn datblygiadau tai (gellid cynnwys mwy o fanylion o fewn canllaw cynllunio atodol).

Sylw ar bolisi **SP10: Trafnidiaeth Gynaliadwy**

- Cyfle i greu llwybrau cerdded/beicio diogel, wedi'u goleuo'n dda a hygyrch i gysylltu cymunedau, gan gefnogi cydlyniant.

Sylwadau ar bolisi **CI1: Darpariaeth Mannau Agored**

- Opsiwn i greu ardaloedd tyfu cymunedol a all hyrwyddo rhyngweithiadau pontio'r cenedlaethau, cyfleoedd diwylliannol a chreu mannau cymdeithasol i bobl ymgysylltu gyda'i gilydd.
- Efallai y bydd angen ystyried wrth ddylunio mannau boblogaethau nad Cymru yw eu mamwlad h.y. ffoaduriaid neu geiswyr lloches sydd wedi'u cartrefu ym Mro Morgannwg. Gallai hyn helpu'r grwpiau hyn o bobl i ymgartrefu a chael ymdeimlad o berthyn yn eu cymuned.
- Bydd angen ystyried 'dylunio gan ddileu trais' wrth ddylunio mannau lle mae mannau yn cael eu dylunio i beidio â hwyluso ymddygiad gwrthgymdeithasol, mae risg o ddileu creu mannau ar gyfer cynulladau cymunedol. Er enghraifft, os yw meinciau neu fannau

ymgynnull cymunedol yn cael eu dileu, mae'r gallu i bobl orffwys neu stopio a sgwrsio hefyd yn cael ei ddileu.

Sylwadau ar **SP19: Seilwaith Gwyrdd**

- Opsiwn i ystyried gweithredu mannau tyfu cymunedol neu berllannau cymunedol (sy'n gysylltiedig â hyrwyddo dewisiadau bwyd iach).

Sylwadau ar **CI4: Diogelu a Gwella Cyfleusterau Cymunedol Presennol**

- Cyfle i gasglu mewnwelediadau cymunedol lefel uchel am ba fath o gyfleusterau yr hoffent eu gweld yn cael eu hadfywio – e.e. hybiau cymunedol, cyfleusterau aml-dddefnydd.

5.3 Lles Meddyliol

Trafodaeth fach o fewn y gweithdy a drafododd y penderfynydd hwn a sut y gall polisiau'r CDLL helpu. Roedd yn benderfynydd trawsbynciol ar draws y polisiau.

Effeithiau cadarnhaol posibl y gallai'r polisiau eu cael:

- Gwneud mannau pontio'r cenedlaethau, diogel a hygyrch lle gall pobl ymgysylltu â'u cymuned a'u gwasanaethau.
- Darparu mynediad i fannau gwyrdd sy'n lleddfu straen yn naturiol.

Effeithiau negyddol anfwriadol posibl:

- Gall mannau ymgynnull cymunedol fod yn straen i drigolion os nad oes ymgysylltu â'r gymuned yn cael ei wneud cyn gweithredu'r mannau hyn.
- Mae rhai deiliadaethau eiddo o fewn datblygiadau yn gofyn am daliadau gwasanaeth yn fisol/blynyddol gan drigolion, mewn argyfwng costau byw, gall hyn achosi baich pellach i deuluoedd sydd eisoes yn cael trafferth a rhaid ei reoli mewn ceisiadau cynllunio.

5.4 Amodau byw ac amgylcheddol sy'n effeithio ar iechyd

Nodwyd sawl effaith bosibl y gallai'r CDLL eu cael, gan gynnwys diogelwch cymunedol, darparu mannau chwarae a strydoedd di-geir.

Sylwadau ar **PGD1: Creu Lleoedd wedi'u Dylunio'n Dda a Chynhwysol**

- Cyfle i wneud strydoedd yn fwy diogel trwy eu gwneud yn fwy addas i gerddwyr, lleihau'r defnydd o geir, llygredd aer a llygredd sŵn.
- Cyfle i blannu coed er mwyn preifatrwydd, diogelwch ac i leihau llygredd aer a sŵn.
- Er mai'r nod cyffredinol yw lleihau'r defnydd o geir, mae angen mannau parcio o hyd yn agos at ddatblygiadau tai, fodd bynnag, gellir eu dylunio i fod yn llai ymwithiol.

Sylwadau ar **SP10: Trafnidiaeth Gynaliadwy**

- Bydd hyrwyddo teithio llesol yn gofyn am i bobl sy'n berchen ar feiciau/e-feiciau/sgwteri allu eu storio'n ddiogel mewn mannau gwaith, hamdden a chartref – bydd angen ystyried y mannau hyn o fewn datblygiadau.

Sylwadau ar **CI1: Darpariaeth Mannau Agored**

- Cyfle i greu mannau agored a gwyrdd i bawb, cynhwysiant i bawb o fewn y gymuned.
- Mae angen paru anghenion poblogaeth darged y datblygiad o ran dyrannu gofod ar gyfer chwarae, hamdden a mannau agored.
- Cyfle i 'ddylunio gan ddileu trais' gan weithio gyda gwasanaethau lleol ar gyfer gwasanaethau mwy diogel a phriodol – cysylltu â Heddlu De Cymru.
- Mae angen ystyried cynnal a chadw mannau agored – pwy sydd â'r cyfrifoldeb ariannol.
- Mae angen ystyried ble mae'r mannau chwarae wedi'u lleoli, gan fod gan bobl ganfyddiad y gall ymddygiad gwrthgymdeithasol godi yn y mathau hyn o ofod – yn enwedig mewn tai cymdeithasol.
- Nid oes gan fannau agored/parc/hamdden presennol y ddarpariaeth 'drwy'r dydd' honno o ran cyfleusterau toiledau, mynediad i safleoedd bwyd a gwasanaethau eraill sy'n cyfyngu ar faint o amser y mae pobl yn ei dreulio yn y mannau hyn.
- Mae angen ystyried sut i leihau'r amseroedd aros am randir o ran creu mannau agored wedi'u dyrannu ar gyfer rhandiroedd.
- Cyfle i blannu coed trefol y gellir ei gysylltu ag oeri a chysgodi, yn enwedig os ydym yn mynd i brofi digwyddiadau tywydd mwy eithafol oherwydd y newid yn yr hinsawdd.

Sylwadau ar **RCS3: Siopau Tecawê Bwyd Poeth**

- Gall rheoli crynodiad siopau tecawê bwyd poeth effeithio ar swm y sbwriel y mae ardal yn ei brofi, gan ddiogelu'r amgylchedd.

5.5 Amodau economaidd sy'n effeithio ar iechyd

Trafodwyd y penderfyniadau hwn yn fyr yn y gweithdy a chanolbwyntiodd y sgwrs ar yr effeithiau posibl canlynol.

Sylwadau ar yr effeithiau negyddol/anfriadol posibl:

- Mae'r gofod lleiaf gwerthfawr yn tueddu i ddod yn ofod ar gyfer hamdden nad yw bob amser y mwyaf diogel neu'r mwyaf priodol ar gyfer y boblogaeth darged, gall ymgysylltu â datblygwyr helpu hyn.
- Wrth blannu ar gyfer preifatrwydd, diogelwch a swm, mae angen ystyried pwy sy'n cynnal y rhain – a yw'n dibynnu ar leoliad? A fydd costau'n cael eu trosglwyddo i drigolion?
- Ar gyfer datblygiadau newydd sy'n gweithredu tâl gwasanaeth ar gyfer casglu gwastraff/gwasanaethau eraill – a yw hyn yn cael ei ddosbarthu fel tai fforddiadwy gyda'r costau ychwanegol? A yw hyn yn atal rhai grwpiau o'r boblogaeth rhag gallu cael mynediad i'r tai newydd hyn h.y. teuluoedd, y rhai ar incwm isel?
- Wrth ddatblygu cyfleusterau hamdden awyr agored, a oes modd codi tâl am gyfleusterau fel toiledau a pharcio?

5.6 Mynediad i wasanaethau ac ansawdd gwasanaethau

Canolbwyntiodd trafodaeth fwy ar y polisiâu sydd â'r nod o effeithio ar fynediad i wasanaethau ac ar ansawdd y gwasanaethau hynny.

Sylwadau ar **SP10: Trafnidiaeth Gynaliadwy**

- Mae creu datblygiadau gan ganolbwyntio ar y llwybr trenau sy'n rhedeg trwy Fro Morgannwg yn ffordd wych o sicrhau bod pobl yn cael y cyfle i fod yn gysylltiedig â gwasanaethau a llwybrau teithio eraill.
- Mae cyfle i fod yn hyblyg gyda llwybrau teithio o fewn datblygiadau yn creu'r gallu i'r boblogaeth darged gael sawl ffordd o gael mynediad i wasanaethau o fewn yr ardal leol.
- Mae angen ystyried y gymuned leol lle mae datblygiad wedi'i drefnu. Os rhoddir mynediad i deithio fel safleoedd bws/gorsafoedd trên ar waith, bydd angen iddo fod yn briodol h.y. yn ddiogel, wedi'i oleuo'n dda, yn hygyrch.
- Byddai sgysiau ar draws timau perthnasol yn ddefnyddiol wrth sefydlu system dolen drafnidiaeth i sicrhau bod llwybrau'n gysylltiedig â chyfleusterau a gwasanaethau yn yr ardal leol ac yn ehangach.

Sylwadau ar **CI1: Darpariaeth Mannau Agored**

- Os yw toiledau'n cael eu darparu fel rhan o'r datblygiad, bydd angen i'r datblygwyr fod yn ymwybodol o gostau cynnal a chadw parhaus, ond heb roi'r gwasanaethau hyn ar waith, mae risg na fydd rhai grwpiau yn gallu cael mynediad i wasanaethau ehangach.
- Dylid ystyried sut y gellid dylunio mannau agored gan ystyried gwahanol rywiau.
- Mae polisi'n canolbwyntio ar safonau darpariaeth, ond mae hyn wedi dyddio. Dylai fod yn cael ei arwain gan ddylunio ac ni ddylai gofynion fod mor rhagnodol h.y. un ffigur m2 ar gyfer pob man agored y gellir ei fodloni trwy ystyried amgylchiadau lleol.

Sylwadau ar **C14 diogelu a gwella cyfleusterau cymunedol presennol**

- Trwy adfywio seilwaith presennol, gall adeiladau ddod yn rhai aml-ddefnydd, gallant gysylltu gwasanaethau lluosog mewn un lleoliad, a chefnogi anghenion y Byrddau Iechyd ar gyfer darparu gwasanaethau.
- Gall creu mwy o ddatblygiadau effeithio ar wasanaethau presennol fel mwy o bobl yn ceisio cael mynediad i feddygon teulu, a llai o apwyntiadau meddygon teulu ar gael i drigolion presennol. Weithiau mae hyn yn ganfyddiad o'r gymuned bresennol mewn perthynas ag effaith, ond gall fod yn realiti y gall gofal iechyd gael ei ymestyn mewn rhai ardaloedd. Dylid ymgynghori â Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro ar gam cyn gwneud cais datblygiad mawr i ystyried yr effaith bosibl ar wasanaethau gofal iechyd, a chynllunio i sicrhau bod gwasanaethau priodol ar gael trwy ddarparu seilwaith priodol lle bo angen.
- Mae angen ystyried sut i arwain datblygwyr i ddatblygu adeiladau presennol yn unol ag anghenion y gymuned.

5.7 Ffactorau macro-economaidd, amgylcheddol a chynaliadwyedd

Er na thrafodwyd y penderfynnydd hwn yn fanwl, cafodd ei drafod yn fyr mewn llawer o'r polisïau.

Sylwadau ar effeithiau posibl

- Ni ddylai datblygiadau'r cynllun effeithio'n negyddol ar y boblogaeth leol o ran yr argyfwng costau byw.
- Seilwaith gwyrdd – e.e. gall plannu coed helpu gyda'r digwyddiadau tywydd eithafol sy'n deillio o'r newid yn yr hinsawdd.

- Gall adfywio seilwaith presennol yn y sir helpu i wneud yr ardal yn fwy deniadol i ddarpar drigolion a datblygwyr.

6. Casgliad

Teimlwyd bod potensial gan y polisiau manwl yn y Cynllun Adneuo a adolygwyd i gael effaith gadarnhaol ar iechyd. Roedd y cyfranogwyr yn teimlo bod rhai elfennau o'r polisiau y gellid eu cryfhau o ran mwy o eglurhad, fodd bynnag, esboniodd y tîm Cynllunio o gyngor Bro Morgannwg y gellir cynnwys manylion ar gyfer y polisiau yn y Canllaw Cynllunio Atodol.

Roedd y rhai a oedd yn bresennol yn teimlo bod y gweithdy wedi rhoi cyfle da i ystyried anghenion y boblogaeth leol yn fanylach ac wedi tynnu sylw at faterion penodol yn ymwneud â'r penderfyniadau ehangach y gallai'r Polisiau Cynllunio ddylanwadu arnynt ar gyfer y blynyddoedd i ddod.

Rhoddodd gwerthusiad o'r gweithdy gipolwg ar ba mor dda aeth y gweithdy. Ar y cyfan, rhoddodd y cyfranogwyr sgoriau rhagorol, gyda llawer yn nodi eu bod eisiau trafodaeth bellach ar y pwnc ac y byddent yn croesawu'r cyfle i gymryd rhan yn neu gydweithio ar weithdai cyfranogol yn y dyfodol.

Adborth gan gyfranogwr:

'Roedd yn dda rhannu barn – a fydd yn rhan o bolisiau'r CDLL'

'Defnyddiol iawn o ran cymryd rhan a deall y broses'

'(da gallu ystyried) ehangder ac ystod effeithiau posibl polisiau arfaethedig'



Rhestr Wirio Grwpiau Poblogaeth

Mae'r rhestr wirio hon i'w defnyddio yn ystod Proses Sgrinio ac Arfarnu HIA er mwyn nodi'r grwpiau poblogaeth y gellid cael mwy o effaith arnynt nag eraill drwy bolisi/prosiect/cynnig.

Mae'r grwpiau a restrir isod wedi'u nodi fel rhai sy'n fwy agored i ganlyniadau iechyd a llesiant gwaeth (anghydraddoldebau iechyd) ac felly mae'n bwysig eu hystyried wrth Sgrinio ac Arfarnu HIA. Mewn HIA, bydd y grwpiau y nodwyd eu bod yn fwy sensitif i effeithiau posibl yn dibynnu ar nodweddion y boblogaeth leol, y cyd-destun, a natur y cynnig ei hun.

Canllaw yn unig yw'r rhestr hon felly ac nid yw'n hollgynhwysol. Gall fod yn briodol canolbwyntio ar grwpiau sydd ag anfanteision lluosog. Nodwch hefyd y gall terminoleg newid dros amser/cyhoeddiad.

Grwpiau cysylltiedig â rhyw/rhywedd

- Benywaidd
- Gwrywaidd
- Trawsryweddol
- Arall (*rhowch fanylion*)

Grwpiau cysylltiedig ag oedran (gellid nodi ystod oedran ar gyfer ystyriaeth arbennig)

- Plant a phobl ifanc
- Blynyddoedd cynnar (gan gynnwys beichiogrwydd a blwyddyn gyntaf bywyd)
- Poblogaeth oedolion yn gyffredinol
- Pobl hŷn

Grwpiau sy'n wynebu risg uwch o wahaniaethu neu anfantais gymdeithasol arall

- Pobl dduon a grwpiau lleiafrifoedd ethnig (*rhowch fanylion*)
- Gofalwyr
- Cyn-droseddwr
- Sipsiwn a Theithwyr
- Y Digartref
- Iaith/diwylliant (*rhowch fanylion*)
- Pobl lesbiaidd, hoyw a deurywiol
- Plant sy'n derbyn gofal
- Pobl sy'n ceisio lloches
- Pobl â chyflyrau iechyd hirdymor
- Pobl â chyflyrau iechyd meddwl
- Pobl sydd ag anableddau/anawsterau corfforol, synhwyraidd neu ddysgu
- Grwpiau ffoaduriaid
- Grwpiau crefyddol (*rhowch fanylion*)
- Teuluoedd rhiant unigol
- Cyn-filwyr

Grwpiau cysylltiedig ag incwm

- Economaidd anweithgar
- Pobl ar incwm isel
- Pobl sy'n methu gweithio oherwydd salwch
- Di-waith/heb waith

Grwpiau a/neu leoliadau daearyddol (sylwer - gall hyn fod yn gyfuniad o ffactorau)

- Pobl mewn lleoliadau allweddol: gweithleoedd/ysgolion/ysbytai/cartrefi gofal/carchardai
- Pobl sy'n byw mewn ardaloedd lle ceir dangosyddion gwael o ran yr economi a/neu iechyd
- Pobl sy'n byw mewn ardaloedd gwledig, ynysig neu orboblog
- Pobl sy'n methu â chael mynediad at wasanaethau a chyfleusterau

Rhestr Wirio Penderfynyddion Iechyd a Llesiant

IECHYD A LLESIANT CORFFOROL, MEDDYLIOL, CYMDEITHASOL, AMGYLCHEDDOL

1. Ymddygiadau sy'n effeithio ar iechyd

- Diet / Maeth / Bwydo ar y fron
- Gweithgarwch corfforol
- Gweithgaredd cymryd risg h.y. ymddygiad caethiwus, gamblo
- Defnyddio cyfryngau cymdeithasol
- Defnyddio alcohol, sigarêts, systemau cyflawni nicotin electronig (h.y. e-sigarêts)
- Gweithgarwch rhywiol
- Defnyddio sylweddau, meddyginiaeth ddi-bresgripsiwn, a cham-drin meddyginiaeth presgripsiwn

2. Dylanwadau cymdeithasol a chymunedol ar iechyd

- Profiadau niweidiol yn ystod plentynod h.y. camdriniaeth gorfforol, emosiynol neu rywiol
- Cydlyniant cymunedol, hunaniaeth, balchder lleol
- Cydnherthedd cymunedol
- Rhaniadau yn y gymuned
- Trais yn y cartref
- Iaith
- Perthnasoedd, trefniadaeth a rolau teuluol
- Ethos diwylliannol ac ysbrydol
- Bod yn gymdogol
- Allgáu cymdeithasol arall h.y. digartrefedd, carchariad
- Rhianta ac ymlyniad babanod (bond cynnar cryf rhwng baban a'r gofalwr sylfaenol)
- Pwysau gan gyfoedion
- Hiliaeth
- Ymdeimlad o berthyn
- Unigedd cymdeithasol/unigrwydd
- Cyfalaf cymdeithasol, cefnogaeth a rhwydweithiau
- Trydydd Sector a Gwirfoddoli
- Grym a dylanwad y dinesydd

3. Iechyd a llesiant meddwl

A allai fod effeithiau posibl ar:

- Llesiant emosiynol, bodlonrwydd bywyd neu gydnerthedd?
- Ymdeimlad o reolaeth?
- Teimlo'n werth chweil, yn cael eu gwerthfawrogi neu'n meddu ar ymdeimlad o bwrpas?
- Ansicrwydd neu bryder?
- Teimlo'n saff a diogel?
- Cyfranogiad mewn bywyd cymunedol ac economaidd?

4. Amodau byw ac amgylcheddol sy'n effeithio ar iechyd

- Ansawdd aer
- Ardal yn ddeniadol
- Diogelwch cymunedol
- Mynediad, argaeledd ac ansawdd mannau naturiol gwyrdd a glas
- Ansawdd a deiliadaeth tai
- Amgylchedd dan do
- Iechyd a Diogelwch
- Llygredd golau
- Sŵn
- Ansawdd a diogelwch mannau chwarae (ffurfiol ac anffurfiol)
- Diogelwch ar y ffyrdd
- Arogleuon
- Amgylchedd adeiledig a naturiol trefol/gwledig a dyluniad y gymdogaeth
- Gwaredu gwastraff, ailgylchu
- Ansawdd dŵr h.y. dŵr môr

5. Amodau economaidd sy'n effeithio ar iechyd

- Diweithdra
- Tlodi gan gynnwys tlodi bwyd a thanwydd
- Incwm
- Dyledion personol ac aelwyd
- Anweithgarwch economaidd
- Math o gyflogaeth h.y. parhaol/dros dro, amser llawn/rhan-amser
- Amodau gwaith h.y. bwlio, iechyd a diogelwch, yr amgylchedd

6. Mynediad ac ansawdd gwasanaethau

- Cyngor gyrfaol
- Addysg a hyfforddiant
- Technoleg gwybodaeth, mynediad i'r rhyngwrwyd, gwasanaethau digidol
- Gwasanaethau hamdden
- Gwasanaethau meddygol ac iechyd
- Cyngor lles a chyfreithiol
- Gwasanaethau gofalu eraill h.y. gofal cymdeithasol; Trydydd Sector, gwasanaethau ieuenctid, gofal plant
- Amwynderau cyhoeddus h.y. neuaddau pentref, llyfrgelloedd, canolbwyt cymunedol
- Siopau a gwasanaethau masnachol
- Trafnidiaeth gan gynnwys parcio, trafniadaeth gyhoeddus, teithio llesol

7. Ffactorau macro-economaidd, amgylcheddol a chynaliadwyedd

- Bioamrywiaeth
- Newid yn yr hinsawdd h.y. llifogydd, tywydd poeth
- Costau byw h.y. bwyd, rhent, cludiant a phrisiau tai
- Datblygu economaidd gan gynnwys masnachu a chytundebau masnach
- Cynnyrch Mewnwladol Crynswth
- Adfywio
- Polisiau'r llywodraeth h.y. egwyddor Datblygu Cynaliadwy (integreiddio; cydweithredu; ymglymiad; meddwl tymor hir; ac atal)



Cyngor Bro Morgannwg

Cyfarwyddiaeth Lleoedd

Swyddfeydd Dinesig

Heol Holltwyn

Y Barri CF63 4RU

LDP@bromorgannwg.gov.uk

www.bromorgannwg.gov.uk

